**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

8 Ebrill 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw’r Rheoliadau yn cydymffurfio â’r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â’r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy’n amrywiolynnau o'r feirws hwnnw, gan deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae’r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â’r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a’r gwledydd eraill yn parhau.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae’r Llywodraeth o’r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth o’r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae asesiadau risg diweddaraf y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch (22 Mawrth) ar gyfer Bangladesh, Kenya, Pacistan ac Ynysoedd Philippines yn dangos bod y risgiau wedi cynyddu ac y dylid ychwanegu'r gwledydd hyn at y "rhestr goch" o wledydd. Ni fyddai teithwyr o'r gwledydd hynny yn cael dod i mewn i Gymru; yn hytrach byddai'n rhaid iddynt ddod drwy borthladd dynodedig yn Lloegr neu yn yr Alban ac aros mewn cwarantin wedi’i reoli yno am 10 o ddiwrnodau cyn teithio i Gymru. Bydd teithiau hedfan uniongyrchol wedi’u gwahardd, ond ni ddisgwylir teithiau o’r fath.

Gwneir newidiadau eraill yn y ddeddfwriaeth hon er mwyn:

- Caniatáu i gludwyr sydd wedi bod mewn gwlad "rhestr goch" ddod i mewn i Gymru a chael eu heithrio rhag y gofyniad i fynd i fan ynysu wedi’i reoli yn Lloegr.

- Cyflwyno trefniant profi pwrpasol ar gyfer cludwyr (o’r DU ac o’r tu allan i'r DU) i'w heithrio rhag y gofynion profi ar ôl cyrraedd a rhoi profion gweithlu iddynt ar ddiwrnodau 2, 5 ac 8 yn lle hynny.

- Cyflwyno gofynion ynysu penodol ar gyfer cludwyr.

- Gosod hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer troseddau’n ymwneud â’r gofynion profi ac ynysu newydd.

- Caniatáu i fyfyrwyr o dan 18 oed sydd wedi bod mewn gwlad "rhestr goch" ddod i mewn i Gymru ac ynysu mewn ysgol breswyl.

- Caniatáu i berson adael ei fan ynysu ar ôl 14 diwrnod os nad yw canlyniad prawf wedi'i ddychwelyd o’r labordy.

- Gwneud diwygiadau canlyniadol eraill gan gynnwys diwygiadau i gywiro gwallau drafftio yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.